

---

# Comisiynydd Plant Cymru

## Children's Commissioner for Wales

Sally Holland

---

### ADDYSG HAWLIAU DYNOL YN Y CWRICWLWM NEWYDD: PAPUR SAFBWyNT COMISIYNYDD PLANT CYMRU

#### Trosolwg

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drawsffurfio'r system addysg a gwella bywydau plant a phobl ifanc. Er bod y cwricwlwm ysgol presennol yn cynnwys rhai elfennau sy'n adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion hawliau dynol, nid yw cefnogi plant i ddysgu am eu hawliau yn orfodol. Mae'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm yn gyfle allweddol i Gymru roi sylw i'r bwlch hwn. Bydd sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i'r cwricwlwm yn creu man cychwyn y dylai ein holl ymrwymadau i blant a phobl ifanc lifo ohono; gan wireddu gwerthoedd hawliau dynol yn uniongyrchol yn ein perthynas â phlant a phobl ifanc, yn ein hymarfer a'n haddysgeg, ac yn y systemau a roddwn ar waith i gefnogi plant i fod y gorau gallan nhw fod. Mae'r papur hwn, felly, yn cyflwyno safbwynt y Comisiynydd o ran pam dylai hawliau dynol ffurfio sylfaen orfodol, waelodol i'r Cwricwlwm newydd, ac mae hefyd yn:

- Mae'n amlinellu'r prif fanteision i blant yn sgîl cynnwys sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar wyneb y Bil Cwricwlwm ac Asesu.
- Darparu diffiniad o addysg hawliau dynol;
- Nodi manteision addysg hawliau dynol;
- Mapio sut mae hawliau plant wedi eu hintegreiddio ar hyn o bryd ar draws 4 Diben a 6 Maes Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm newydd.

---

Croesawn ahebiaeth yn y Gymraeg yn  
ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o  
fformatau / We welcome correspondence  
in the medium of Welsh and English  
as well as alternative formats

Tŷ Ystumllwynarth/Oytermouth House  
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way  
Abertawe/Swansea SA7 9FS  
T 01792 765600 F 01792 765601

[post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)  
[post@childcomwales.org.uk](mailto:post@childcomwales.org.uk)  
[www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk)  
[www.childcomwales.org.uk](http://www.childcomwales.org.uk)

## Table of Contents

<b>ADDYSG HAWLIAU DYNOL YN Y CWRICWLWM NEWYDD: PAPUR SAFBWyNT COMISIYNYDD PLANT CYMRU.....</b>	<b>1</b>
<b>Cynnwys.....</b>	<b>2</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>3</b>
<b>2. Sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.....</b>	<b>4</b>
<b>3. Addysg Hawliau Dynol.....</b>	<b>5</b>
<b>3.1 Beth yw Addysg Hawliau Dynol?.....</b>	<b>5</b>
<b>3.2 Pam mae hawliau dynol ac addysg hawliau plant yn bwysig yn y Cwricwlwm Ysgol Cenedlaethol?6</b>	
<b>3.3 Effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr ac amgylchedd yr ysgol .....</b>	<b>7</b>
<b>3.4 Addysg Hawliau Dynol: Creu diwylliant sy'n parchu hawliau dynol yng Nghymru .....</b>	<b>7</b>
<b>3.5 Cyflawni ymrwymadau cenedlaethol a rhyngwladol Cymru i addysg hawliau dynol.....</b>	<b>7</b>
<b>4. Addysg Hawliau Dynol yn y Cwricwlwm newydd .....</b>	<b>8</b>
<b>4.1 Sut dylai addysg hawliau dynol gael ei hintegreiddio i'r Cwricwlwm?.....</b>	<b>8</b>
<b>• Datblygu capasiti plant ynghylch hawliau dynol ar draws y Cwricwlwm newydd .....</b>	<b>8</b>
<b>• Cynnwys materion hawliau dynol perthnasol ac enghreifftiau ohonynt ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.....</b>	<b>9</b>
<b>• Datblygu gweithlu sy'n gwybod am hawliau .....</b>	<b>9</b>
<b>4.2 Sut olwg fyddai ar allu cyffredinol plant ym maes hawliau dynol? .....</b>	<b>9</b>
<b>5. Diwedd glo .....</b>	<b>11</b>
<b>ATODIAD A: MAPIO HAWLIAU PLANT A DIBENION Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU .....</b>	<b>10</b>
<b>ATODIAD B: MYNEG I CCUHP AR DRAWS Y MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD .....</b>	<b>14</b>

## 1. Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio a moderneiddio'r system addysg. Mae adlunio'r Cwricwlwm Cenedlaethol, diwygio'r Safonau Addysgu ac Arweinyddiaeth Proffesiynol a thrawsnewid y system Anghenion Dysgu Ychwanegol i gyd yn arwyddion o ymrwymiad Cymru i wella bywydau plant a phobl ifanc.

Er bod y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol yn cynnwys rhai elfennau sy'n adlewyrchu egwyddorion a gwerthoedd hawliau dynol, nid yw cefnogi plant i ddysgu am eu hawliau yn orfodol. Mae hynny er gwaethaf galwadau a wnaed gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn,<sup>1,2</sup> sef y dylid ymgorffori addysg hawliau dynol i'r cwricwlwm gorfodol. Er bod ysgolion yn lleol wedi gwneud peth cynnydd, mae ymarfer ac addysgu hawliau yn dal yn ddarniog ac yn anghyson ar draws Cymru.

Fodd bynnag, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn mynd trwy gyfnod sylweddol o drawsffurfio ac mae cyfle unwaith-mewn-cenhedlaeth yn bodoli i sicrhau bod gwerthoedd ac egwyddorion hawliau dynol yn darparu sylfaen amlwg i'n system addysg. Bydd y cyfnod uchelgeisiol hwn o newid yn symud Cymru i ffwrdd oddi wrth fodel addysg traddodiadol lle caiff plant eu hannog i 'ddysgu am' bynciau i fodel newydd, mwy arloesol, sy'n eu cefnogi i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau mewn cyd-destunau byd go iawn. Yn ei hanfod, nod y rhaglen ddiwygio yw gwneud dysgu'n berthnasol i fywydau plant a'u helpu i ddatblygu sgiliau lefel uwch a fydd yn eu paratoi'n well ar gyfer oedolaeth a byd gwaith, sydd mor gyfnewidiol.

Os ydym i fwyafu ein hymdrechion i sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru yn y tymor hir, mae'n rhaid i ni gydnabod rôl arwyddocaol addysg o ran ein helpu i bennu ein dyfodol ein hunain. Addysg yw'r sylfaen ar gyfer creu Cymru fwy llewyrchus, cydnerth a chynhwysol. Trwy addysg yr ydym yn cynhyrchu gwybodaeth newydd, yn buddsoddi mewn sgiliau ac yn trosglwyddo gwerthoedd tegwch, cydraddoldeb a pharch i genedlaethau'r dyfodol. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r cwricwlwm newydd roi sylw i'r rôl gatalytaidd y mae cyflawni hawliau dynol ac addysg hawliau dynol yn ei chwarae wrth gyflawni datblygu cynaliadwy a gwella llesiant<sup>3</sup>.

Mae Erthygl 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi y dylai addysg, fel isafswm, fod wedi'i llunio i ddarparu sgiliau bywyd ar gyfer plant, cryfhau eu capasiti i fwynhau'r ystod lawn o hawliau dynol, a hybu diwylliant sy'n parchu, yn amddiffyn ac yn hyrwyddo gwerth hawliau dynol<sup>4</sup>. Gyda hynny mewn golwg, barn y Comisiynydd yw bod rhaid sicrhau addysg seiliedig ar hawliau ledled Cymru. Mae hynny'n cynnwys nid yn unig yr hyn sydd yn y cwricwlwm ond hefyd y prosesau addysgol, y dulliau addysgeg a'r amgylchedd y mae'r addysg yn digwydd oddi mewn iddo. O ganlyniad, mae'r ddogfen hon yn amlinellu safbwynt y Comisiynydd o ran pam dylai hawliau dynol ac addysg hawliau plant fod yn sylfaen waelodol ar gyfer y Cwricwlwm newydd ac yn dangos sut gellir gwreiddio hynny fel fframwaith trosfwaol ar draws ei Ddibenion a'i Feysydd Dysgu a Phrofiad.

<sup>1</sup> Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (2008) *Concluding Observations: United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland*. [.pdf] Ar gael ar-lein yn: <http://www2.ohchr.org/english/bodies/crc/docs/AdvanceVersions/CRC.C.GBR.CO.4.pdf> Cyrchwyd ar: 16/01/2018

<sup>2</sup> Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (2016) *Sylwadau Terfynol: Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon*. [.pdf] Ar gael ar-lein yn: <http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2fPPRiCAqhKb7yhsKHOi6VpDS%2f%2fJx9gncnUyUgbnuttBweOlyfyYPkBbwffitW2JurgBRuMMxZqnGgerUdpxij3uZ0biQBPO1vdh%2bziU8EmP5PnGXSC> Cyrchwyd ar: 16/01/2018

<sup>3</sup> Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (2016) *Human Rights Council: Panel discussion on the implementation of the United Nations Declaration on Human Rights Education and Training: good practices and challenges*. [.pdf] <http://daccess-ods.un.org/access.nsf/Get?Open&DS=A/HRC/35/6&Lang=E> Cyrchwyd ar: 16/01/2018

<sup>4</sup> Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (2001) *Sylw Cyffredinol Rhif 1 – Erthygl 29(1): Nodau Addysg*. [.pdf] Ar gael ar-lein yn: <http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2fPPRiCAqhKb7yhsKHOi6VpDS%2f%2fJx9gncnUyUgbnuttBweOlyfyYPkBbwffitW2JurgBRuMMxZqnGgerUdpxij3uZ0biQBPO1vdh%2bziU8EmP5PnGXSC> Cyrchwyd ar: 16/01/2018

## 2. Sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Er mwyn diogelu anghenion tymor hir plant ar hyd eu profiad addysgol, dylid cynnwys ymrwymiad clir i'w hawliau yn y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer y cwricwlwm ac asesu. Dylai sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn [CCUHP] ymddangos ar wyneb y Bil Cwricwlwm ac Asesu. Bydd sicrhau egwyddorion a darpariaethau'r confensiwn trwy gyfraith gwlad yn arwydd o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau hawliau holl blant Cymru.

Mae cynsail cyfreithiol i hyn yng Nghymru ar ffurf Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Y Bil Cwricwlwm ac Asesu fydd yn creu'r newid deddfwriaethol pellaf ei gyrhaeddiad yng Nghymru o ran cyffredinolrwydd ei effaith ar blant. Bydd hefyd yn benodol ac yn neilltuol berthnasol i brofiadau plant a phobl ifanc. Heb gynnwys dyletswydd o ran CCUHP yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu bydd sefyllfa'n codi lle mae gan rai plant a phobl ifanc ddarpariaethau CCUHP yn neddfwriaeth gwlad ynghylch eu haddysg, ond lle nad yw hynny'n wir am eraill. Mae cynnwys dyletswydd o ran CCUHP yn osgoi creu fframwaith deddfwriaethol dryslyd i blant yng Nghymru, a bydd yn sicrhau bod egwyddorion a darpariaethau cyson yn eu lle ar draws lleoliadau addysg.

Mae hyn hefyd yn arwydd o ymateb cadarn gan Lywodraeth Cymru i argymhellion diweddaraf Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, a nododd yn ei Sylwadau Terfynol fod camau o'r fath yn angenrheidiol i alluogi plant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig i wireddu eu hawliau, gan argymhell y dylai'r wladwriaeth:

*7 (a) Expedite bringing its domestic legislation, at the national and devolved levels as well as in the Overseas Territories and the Crown Dependencies, in line with the Convention in order to ensure that the principles and provisions of the Convention are directly applicable and justiciable under domestic law<sup>1</sup>*

Bydd cynnwys y ddyletswydd hon i roi sylw dyledus nid yn unig yn caniatáu cydlyniant rhwng gwahanol fframweithiau deddfwriaethol, ond hefyd rhwng y Bil Cwricwlwm ac Asesu a'r dogfennau sy'n hysbysu ac a fydd yn llywio gweithredu'r deddfwriaeth honno. Mae Dyfodol Llwyddiannus yn cyfeirio at CCUHP yn egwyddorion dylunio'r cwricwlwm ac yn amlygu mai cefnogaeth rhanddeiliaid i'r egwyddorion a grisialir yn CCUHP a lywiodd ddatblygiad dibenion y cwricwlwm.<sup>2</sup> Mae'r ffocws hwn wedi cael ei adlewyrchu mewn drafftiau cyfredol o ddeilliannau cyflawniad y cwricwlwm newydd, lle mae ffocws penodol ar hawliau plant a CCUHP ym maes y Dyniaethau a Iechyd a Llesiant. Ar ben hynny, ac fel sydd i'w weld yn yr atodiadau i'r papur hwn, mae hawliau plant yn derbyn sylw dealliedig ym mhob un o'r pedwar diben a'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

Serch hynny, nid yw cynnwys hawliau plant yn y dogfennau hyn yn golygu nad oes angen cynnwys dyletswydd o ran CCUHP ar wyneb y bil. Bydd canllawiau atodol yn fwy agored i gael eu newid, ac ni fyddant yn destun yr un lefel o graffu â deddfwriaeth sylfaenol. Er mwyn sicrhau ymrwymiad parhaol i hawliau plant, rhaid i ddyletswydd o ran CCUHP ymddangos ar y ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd hynny hefyd yn creu bil sy'n addas at y dyfodol, gan y bydd yn

<sup>1</sup> Sylwadau terfynol ar bumed adroddiad cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon 2016 [https://tbinternet.ohchr.org/\\_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC/C/GBR/CO/5&Lang=En](https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC/C/GBR/CO/5&Lang=En)

<sup>2</sup> Dyfodol Llwyddiannus, Adolygiad Annibynnol o Drefniadau'r Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru, Yr Athro Graham Donaldson 2015 <https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf>

sicrhau anghenion tymor hir plant trwy seilio'r cwricwlwm ar hawliau'r plentyn; hawliau sy'n berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau ac sy'n sefyll yn wyneb newid cymdeithasol.

Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth hefyd yn cynnwys hawliau dysgwyr fel un o werthoedd a bwriadau gweithwyr proffesiynol, trwy ddatgan y bydd 'anghenion a hawliau dysgwyr yn ganolog ac yn cael blaenoriaeth yn null yr athro o ymdrin â'r gwaith.'<sup>3</sup> Yn y cyd-destun hwn gall hawliau gael eu dehongli'n eang, ond byddai gosod y gofyniad hwn mewn perthynas â dyletswydd sylw dyledus o fewn y cwricwlwm yn sicrhau eglurder i weithwyr proffesiynol ynghylch darpariaethau ac egwyddorion hawliau plant.

Byddai cynnwys dyletswydd sylw dyledus, felly, yn rhoi cydlyniant ac eglurder i ddisgwyliadau o ran ymarfer rheng flaen sydd naill ai eisoes yn eu lle neu wedi'u cynnig, heb osod gofynion ar weithwyr proffesiynol na chyrff a fyddai'n amherthnasol i'n disgwyliadau ar gyfer lleoliadau addysg yng Nghymru. Byddai'r canllawiau cysylltiedig ar y cwricwlwm yn cael eu cryfhau trwy roi sicrwydd y bydd pob plentyn (Erthygl 1) sy'n derbyn y cwricwlwm newydd yn cael ystyriaeth sylfaenol i'w lles pennaf (Erthygl 3) ac yn cael eu trin â thegwch, urddas a pharch (Erthygl 2).

Yn bwysig, bydd cynnwys dyletswydd sylw dyledus yn golygu bod egwyddorion a darpariaethau CCUHP yn cael eu cymhwyso'n gyson i bob plentyn sy'n profi'r trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd. Bydd lleoliadau addysg sydd eisoes wedi datblygu arbenigedd ym maes darparu dysgu a seiliwyd ar hawliau plant (gan gynnwys llawer o ysgolion arloesi) mewn sefyllfa dda i fedru rhannu'r arbenigedd hwnnw er mwyn sicrhau profiad cyson i bob plentyn a pherson ifanc. Bydd hyn yn fecanwaith hynod effeithiol er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei chyfrifoldeb, sef mynnu cydymffurfiaeth lawn â'r Confensiwn, a bydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar Erthygl 4 (Mesurau Gweithredu Cyffredinol) CCUHP. Mae hyn hefyd yn gyfle i ddangos bod y ddyletswydd weinidogol (o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011) i roi sylw dyledus i CCUHP yn cael ei hymarfer.

### 3. Addysg Hawliau Dynol

#### 3.1 Beth yw Addysg Hawliau Dynol?

Hawliau dynol yw'r elfennau sylfaenol ar ffurf rhyddid ac amddiffyniad y mae hawl gan bob person i'w derbyn. Hawliau yw'r rhain sydd gan bawb, beth bynnag yw eu cenedl, ble bynnag maen nhw'n byw, beth bynnag yw eu rhyw, eu tarddiad cenedlaethol neu ethnig, eu lliw, eu crefydd, eu hiaith, eu cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw statws arall. Mae gan bawb ohonom yr un hawl i dderbyn ein hawliau dynol heb gamwahanïaethu. Mae'r hawliau hyn i gyd yn gysylltiedig â'i gilydd, yn dibynnu ar ei gilydd, a does dim modd eu gwahanu oddi wrth ei gilydd.<sup>5</sup>

Ymhellach, mae CCUHP yn cyflwyno holl hawliau economaidd, cymdeithasol, datblygiadol, diwylliannol a sifil ar gyfer holl blant y byd. Mae'n rhoi sylw arbennig i'r nodweddion penodol sy'n gwneud plant a phobl ifanc yn agored i niwed ac yn rhoi haen arbennig o amddiffyniad a chefnogaeth iddyn nhw. **Mae'n bwysig cydnabod y Confensiwn hwn fel ychwanegiad i gytuniadau a deddfwriaeth eraill ym maes hawliau dynol (ond nid fel rhywbeth dewisol y gellir ei wahanu oddi wrthynt).** Mae rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol ar bob oedolyn, sefydliad a haen o'r llywodraeth i barchu, amddiffyn a gwireddu hawliau plant wrth gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau<sup>6</sup>.

Gellir amnewid addysg hawliau dynol ac addysg hawliau plant. Y nod yw meithrin dealltwriaeth a

---

<sup>3</sup> Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, Llywodraeth Cymru 2017  
<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-en.pdf>

gwerthfawrogiad o hawliau dynol trwy ddysgu am hawliau a dysgu trwy hawliau<sup>7</sup>. Dylai addysg hawliau dynol ffurfio sylfaen waelodol ar gyfer y cwricwlwm ysgol newydd, ac mae'n annatod glwm wrth addysgeg addysgu. Mae'n galw nid yn unig am gyfleu gwybodaeth ynghylch hawliau dynol, ond hefyd am gymhwyso addysgeg seiliedig ar hawliau er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dysgu mewn amgylchedd sy'n parchu hawliau.

Mae Erthygl 2 o Ddatganiad y CU ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol yn cyflwyno tair prif elfen addysg hawliau dynol:

- **Dysgu am hawliau dynol:** Caffael gwybodaeth a sgiliau am hawliau dynol;
- **Dysgu trwy hawliau dynol:** Datblygu gwerthoedd ac agweddau sy'n dangos parch, a newid i ymddygiad sy'n adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol; a,
- **Dysgu ar gyfer hawliau dynol:** Symbyliad gweithredu cymdeithasol a grymuso ar ffurf dinasyddiaeth weithredol er mwyn hybu parch at hawliau pawb.<sup>8</sup>

### 3.2 Pam mae hawliau dynol ac addysg hawliau plant yn bwysig yn y Cwricwlwm Ysgol Cenedlaethol?

Mae addysg hawliau dynol yn annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio hawliau yn ffrâm gyfeiriadol yn eu perthnasoedd ag eraill. Mae annog ymholiadau, ffurfio dadleuon, penderfynu, cydweithio, gwerthuso, rhannu a byw yn unol â gwerthoedd<sup>9</sup>. Mae addysg hawliau dynol yn annog plant a phobl ifanc i edrych yn feirniadol ar eu hagweddau a'u hymddygiad eu hunain ac, yn y pen draw, i'w trawsffurfio er mwyn hybu parch at hawliau pawb<sup>10</sup>.

---

<sup>5</sup> Datganiad Cyffredinol ynghylch Hawliau Dynol, 1948 (yn <http://www.un.org/en/documents/udhr/index.shtml>); Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol, 1966 (yn <http://www2.ohchr.org/english/law/cescr.htm>); Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, 1966 (yn <http://www2.ohchr.org/english/law/ccpr.htm>)

<sup>6</sup> Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (2013) *Sylw Cyffredinol Rhif 14 ar hawl y plentyn i'w les pennaf fod yn brif ystyriaeth (erth. 3, para. 1)*. [pdf] Ar gael ar-lein yn: [http://www2.ohchr.org/English/bodies/crc/docs/GC/CRC\\_C\\_GC\\_14\\_ENG.pdf](http://www2.ohchr.org/English/bodies/crc/docs/GC/CRC_C_GC_14_ENG.pdf) Cyrchwyd ar: 16/01/2018

<sup>7</sup> McLeod, J. & Reynolds, R. (2010). *Peaceful pedagogy: teaching human rights through the curriculum*. Terrigal, N.S.W: David Barlow Publishing

<sup>8</sup> Cynulliad Cyffredinol y CU (2012) *United Nations Declaration of Human Rights Education and Training: Resolution 66/137 adopted by the General Assembly on 19 December 2011*. [pdf] Ar gael ar-lein yn: <https://documents-dds-ny.un.org/doc/UNDOC/GEN/N11/467/04/PDF/N1146704.pdf?OpenElement> Cyrchwyd ar: 16/01/2018

<sup>9</sup> Frantzi, K. (2004) 'Human Rights Education: The United Nations Endeavour and the Importance of Childhood and Intelligent Sympathy', *International Education Journal*, Cyf 5(1): 1 – 8

<sup>10</sup> McLeod, J. (2014) 'A peaceful pedagogy: Teaching human rights across the curriculum', *Procedia – Social and Behavioral Sciences*, 152: 1225 - 1232

### 3.3 Effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr ac amgylchedd yr ysgol

Mae agweddau, syniadau a phersonoliaethau plant yn cael eu ffurfio'n ifanc, ac mae eu hamgylchedd, gan gynnwys eu haddysg yn yr ysgol, yn dylanwadu'n drwm arnynt. Mae addysg hawliau dynol yn yr ysgol yn fodd effeithiol i gynorthwyo plant i ymgorffori gwerthoedd hawliau dynol i'w hagweddau a'u hymddygiad. Mae cynorthwyo pobl ifanc i ymgorffori'r gwerthoedd hyn yn eu bywydau beunyddiol yn ffordd bendant o atal bwlio a chamwahaniaethu a hybu cynhwysiad a pharch at amrywiaeth. Mae hawliau dynol yn darparu fframwaith gwerthfawr ar gyfer cysylltiadau da rhwng pobl ac ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus a chymesur – o'r maes chwarae i'r llywodraeth a pholisi cyhoeddus, mae'n cychwyn gydag addysg hawliau dynol yn yr ysgolion.

Mae tystiolaeth ryngwladol ac ymchwil ar draws y Deyrnas Unedig yn dangos, lle mae addysg ynghylch gwerthoedd hawliau dynol wedi'i gwreiddio yng nghynnwys ac addysgeg y dosbarth, fod gwell ymgysylltu gan fyfyrwyr, gwell canlyniadau dysgu, a gwella llesiant cymdeithasol ac emosiynol<sup>11 12</sup>. O ganlyniad i addysg hawliau dynol, mae'r ysgolion wedi adrodd bod mwy o empathi, goddefgarwch a pharch, a bod y myfyrwyr yn fwy hyderus i fynd i'r afael â bwlio<sup>13</sup>. Ar lefel anecdotaidd, mae ysgolion sydd eisoes yn gweithredu addysg hawliau dynol yng Nghymru yn adrodd bod gostyngiad yn y mesurau disgyblu, cynnydd yn lefelau presenoldeb yn yr ysgol, a newid cadarnhaol o ran y perthnasoedd yn y dosbarth a'r maes chwarae, yn ogystal â pherthnasoedd gartref. Gwelwyd tystiolaeth o hyn hefyd gan Estyn, sydd wedi cydnabod cyfraniad ymarfer a dysgu seiliedig ar hawliau mewn nifer o adroddiadau arolygu cadarnhaol dros ben.

### 3.4 Addysg Hawliau Dynol: Creu diwylliant sy'n parchu hawliau dynol yng Nghymru

Mae'r Comisiynydd o'r farn, er mwyn creu cymdeithas lle mae hawliau dynol i gyd yn cael eu parchu a'u hybu, bod rhaid i hynny gychwyn gydag addysg hawliau dynol yn yr ysgol. Mae 'diwylliant sy'n parchu hawliau dynol' yn ceisio gwreiddio parch a chyfrifoldeb am wireddu hawliau ar draws holl lefelau cymdeithas. Mae addysg hawliau dynol yn ymwneud â meithrin diwylliant sy'n parchu hawliau – lle mae hawliau dynol yn dod yn rhan annatod o'r gymdeithas ar sawl lefel bersonol a sefydliadol. Mae hefyd yn ymwneud â gwreiddio dealltwriaeth o hawliau dynol fel un o gonglfeini gwead ein cymdeithas ac ethos genedlaethol sy'n llywio pob agwedd ar ein cenedl, yn ogystal â'n hagweddau a'n hymddygiad.

### 3.5 Cyflawni ymrwymadau cenedlaethol a rhyngwladol Cymru i addysg hawliau dynol

Mae cyflwyno addysg hawliau dynol yn yr ysgolion hefyd yn cyflawni ymrwymadau Cymru o ran hawliau dynol gartref ac yn rhyngwladol. Ar lefel ryngwladol manylir ar yr ymrwymadau hyn yn y canlynol:

- Erthygl 26 o'r Datganiad Cyffredinol ynghylch Hawliau Dynol;
- Erthyglau 4, 29 a 42 o CCUHP, ac
- Erthygl 13 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol.

Ar lefel genedlaethol:

- Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ymgorffori CCUHP yn rhannol i gyfraith gwlad Cymru, ac yn darparu ar gyfer gwireddu hawliau plant ymhellach yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru:
  - Mae Adran 1 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer eu swyddogaethau. Felly, wrth ddiwygio'r Cwricwlwm Ysgol Cenedlaethol, mae'n ofynnol bod Llywodraeth Cymru yn meddwl yn ystyrllon am sut gall hawliau plant gael eu gwireddu ymhellach fel rhan o'r newid polisi hwn;

<sup>11</sup> Education Services Australia (2010) *Giving Voice to the Impacts of Values Education: The Final Report of the Values in Action Schools Project*. [http://www.curriculum.edu.au/verve/\\_resources/VASP\\_FINAL\\_REPORT\\_2010.pdf](http://www.curriculum.edu.au/verve/_resources/VASP_FINAL_REPORT_2010.pdf)

<sup>12</sup> OHCHR (2009) *Human Rights Education in the School Systems of Europe, Central Asia and North America: A Compendium of Good Practice*. <http://www.ohchr.org/Documents/Publications/CompendiumHRE.pdf>

<sup>13</sup> UNICEF (2016) *Rights Respecting Schools – Impact Report*. <https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/wp-content/uploads/sites/4/2017/01/RRSA-Impact-Report-2016.pdf>



- Mae Adran 5 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd (gan gynnwys plant) ynghylch y Confensiwn;
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau sy'n mwyafu ei chyfraniad at gyflawni ei hymrwymiaidau cenedlaethol a rhyngwladol i greu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

O edrych ar y rhain yn ynysig, mae'r dyletswyddau hyn yn ddigon i Lywodraeth Cymru fynd ati i weithio tuag at hybu addysg hawliau dynol mewn ysgolion. O edrych arnynt yn gronol ochr yn ochr â'r sylfaen ryngwladol o dystiolaeth, nid yw'r Comisiynydd yn gweld unrhyw esboniad rhesymegol pam na ddylai addysg hawliau dynol fod yn elfen orfodol drawsbynciol o'r Cwricwlwm newydd – gan ddarparu sylfaen benodol ar gyfer y 4 Diben a chael ei mynegi'n eglur ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

#### **4. Addysg Hawliau Dynol yn y Cwricwlwm newydd**

##### **4.1 Sut dylai addysg hawliau dynol gael ei hintegreiddio i'r Cwricwlwm?**

Mewn ymateb i Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd yn 2016/17<sup>14</sup>, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i weithio tuag at integreiddio CCUHP i'r Cwricwlwm newydd. Mae'r ymrwymiad hwn i'w groesawu'n fawr, ond mae lle i wneud llawer mwy o gynnydd o ran meddwl ynghylch cynnwys, addysgeg ac asesu seiliedig ar hawliau. Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylai hawliau dynol fod yn thema drawsbynciol, hynod weladwy yn y Cwricwlwm newydd. Mae angen integreiddio hawliau dynol mewn modd penodol, ystyrlon ar draws y Cwricwlwm cyfan, a'u deall fel syniadau creiddiol, trawsbynciol sy'n llywio dyluniad addysg yn ei chyfanrwydd, a gweithio tuag at wreiddio'r gwerthoedd hyn yn sgiliau ac agweddau'r dysgwyr.

- **Datblygu capasiti plant ynghylch hawliau dynol ar draws y Cwricwlwm newydd**

Mae mynediad at addysg yn hawl ynddi ei hun. Fodd bynnag, dylid gweld y weithred a'r broses o addysgu fel hawl sy'n borth i hawliau eraill. Dylai hawliau dynol, felly, fod i'w gweld fel blaenoriaeth amlwg, canolog yn y 4 Diben sydd i'r Cwricwlwm newydd.

Mae *Atodiad A* yn nodi ble gellir integreiddio'r hawliau a nodwyd yn CCUHP ar draws 4 Diben y Cwricwlwm.

Dylai gwreiddio hawliau dynol ar draws y Cwricwlwm newydd feithrin capasiti plant a'u gallu cyffredinol i wneud y canlynol:

- Datblygu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o'u hawliau; a
- Datblygu agweddau a chymhwyso ymddygiad sy'n cyd-fynd ag egwyddorion a gwerthoedd hawliau dynol.

Bydd gwreiddio hawliau dynol a hawliau plant yn amlwg ar draws y 4 Diben yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddadbacio hawliau dynol mewn ystod eang o wahanol gyd-destunau dysgu, a bydd yn eu cefnogi i integreiddio gwerthoedd parch, derbyniad, goddefgarwch a chynhwysiad yn eu bywydau beunyddiol. Bydd rhoi blaenoriaeth i hawliau dynol ar draws y Cwricwlwm yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn deall pwysigrwydd hanesyddol a chyfoes hawliau dynol yng Nghymru – o'n systemau cyfreithiol a gwleidyddol i'n diwylliant cenedlaethol, a'r gwerthoedd a'r ethos sydd gennym.

---

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru (2017) *Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016-17*. [pdf] Ar gael ar-lein yn: <http://gov.wales/docs/ds/jlg/publications/cyp/171130-response-to-annual-report-16-17v2-en.pdf> Cyrchwyd ar: 16/01/2018

- **Cynnwys materion hawliau dynol perthnasol ac enghreifftiau ohonynt ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad**

Yn ogystal â chynnwys gallu cyffredinol ynghylch hawliau dynol, dylid ystyried hefyd sut mae mynegi hawliau dynol yn agored ar draws pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad er mwyn darparu canolbwynt ar gyfer meddwl yn ei gyd-destun a chynnal 4 Diben y Cwricwlwm newydd. Er y bydd rhai Meysydd Dysgu a Phrofiad o bosib i'w gweld yn fwy hwylus ar gyfer cynnwys hawliau dynol dealledig (er enghraifft, Iechyd a Llesiant neu'r Dyniaethau), nid yw hynny ynddo'i hun yn ddigonol i sicrhau dealltwriaeth o hawliau dynol fel un o gonglfeini cymdeithas sifil yng Nghymru. Mae'n bwysig bod perthnasedd hawliau dynol i bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cael ei integreiddio'n agored ar draws y cwricwlwm newydd – o ddefnyddio mathemateg fel lens i ymdrin â chwestiynau ynghylch ecwiti a thegwch, i ddefnyddio'r Celfyddydau Mynegiannol i annog gwerthfawrogiad o amrywiaeth diwylliannau ar draws Cymru a gweddill y byd.

Mae *Atodiad B* yn nodi ble mae modd mynegi'r hawliau a gyflwynir gan CCUHP yn agored a'u hintegreiddio ar draws y 6 Maes Dysgu a Phrofiad.

- **Datblygu gweithlu sy'n gwybod am hawliau**

Mae Erthygl 42 o CCUHP yn nodi'n glir gyfrifoldebau'r Llywodraeth i hybu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i hybu hawliau ymhlith y gweithlu plant<sup>15</sup>. Bydd galluogi'r holl weithwyr addysg proffesiynol i ddysgu am hawliau dynol a hawliau plant yn eu galluogi i ryngweithio â'r rhain yng nghyd-destunau eu disgyblaethau eu hunain a dod â gwerthoedd hawliau dynol yn fyw yn eu haddysgeg a'r amgylchedd dysgu ehangach. Yng ngoleuni datblygiadau sy'n parhau i Addysg Gychwynol Athrawon, mae cyfle clir i sicrhau bod safonau hyfforddi ac arwain wedi'u seilio ar hawliau dynol.

#### **4.2 Sut olwg fyddai ar allu cyffredinol plant ym maes hawliau dynol?**

Dylai plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg hawliau dynol fedru datblygu'r wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r ymddygiad sy'n cyd-fynd ag egwyddorion a gwerthoedd hawliau dynol. Dylen nhw fedru deall, cynnal a chymhwyso gwerthoedd urddas dynol, cydraddoldeb, peidio â chamwahaniaethu, cyffredinoedd, parch a chyfranogiad ar draws pob rhan o'u bywydau.

Dylai addysg hawliau dynol alluogi plant a phobl ifanc i wneud y canlynol:

- Deall a pharchu gwerth cyfartal pob person, beth bynnag yw'r gwahaniaethau rhyngddynt;
- Deall sut mae sicrhau bod pob person yn cael eu cynnwys, a heb ddiodef camwahaniaethu oherwydd gwahaniaethau;
- Adnabod pryderon hawliau dynol a rhoi sylw iddynt; a
- Chynhyrchu awydd a chapasiti i sicrhau bod gwerthoedd ac egwyddorion hawliau dynol yn cael eu cynnal ar draws y gymdeithas.

Mae addysg hawliau dynol yn cefnogi plant a phobl ifanc i fynd ati'n raddol i ddatblygu, mynegi a chymhwyso egwyddorion hawliau dynol wrth ddatblygu eu hunan-ymwybyddiaeth, eu dealltwriaeth o'u perthynas ag eraill, y gymdeithas, y byd, a gwybodaeth am faterion cymdeithasol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, a'u galluoedd gwybyddol.

Wrth ddeall yr egwyddorion hyn, dylai plant a phobl ifanc fedru mynegi'r gwerthoedd canlynol:

<sup>15</sup> Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn (2003) *Sylw Cyffredinol Rhif 5: Mesurau gweithredu cyffredinol y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (erth. 4, 42 a 44, para. 6)* [.html] Ar gael ar-lein yn: [http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2FPPrICAqhKb7yhsiQgl8gX5Zxh0cQqSRzx6Zd2%2FQRs\\_DnCTcaruSeZhPr2vUevibn6t6GSi1fheVp%2Bj5HTLU2Ub%2FPZZtQWn0jExFVnWuhiBbqgAi0dWBoFGbK0c](http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2FPPrICAqhKb7yhsiQgl8gX5Zxh0cQqSRzx6Zd2%2FQRs_DnCTcaruSeZhPr2vUevibn6t6GSi1fheVp%2Bj5HTLU2Ub%2FPZZtQWn0jExFVnWuhiBbqgAi0dWBoFGbK0c) Cyrchwyd ar: 16/01/2018

<b>Urddas dynol</b>	<p>Mae urddas dynol yn cadarnhau bod pob person yn haeddu parch yn syml oherwydd eu bod yn fodau dynol.</p> <p>Beth bynnag yw eu hoed, eu diwylliant, eu crefydd, eu tarddiad ethnig, eu lliw, eu rhyw, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hiaith, eu gallu, eu statws cymdeithasol, eu statws sifil neu eu daliadau gwleidyddol, <b>mae pob unigolyn yn haeddu parch.</b></p>
<b>Cyffredinoled</b>	<p>Mae hawliau dynol yn <b>hawliau sylfaenol</b> sy'n eiddo i <b>bob</b> person, yn syml oherwydd eu bod yn fodau dynol. Mae hawliau dynol wedi'u seilio ar yr egwyddor bod pob bod dynol yn cael eu geni'n gyfartal o ran urddas a hawliau. Mae pob hawl ddynol yr un mor bwysig, ac ni ddylid eu cymryd i ffwrdd o dan unrhyw amgylchiadau.</p>
<b>Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu</b>	<p>Mae cydraddoldeb yn cadarnhau bod pob bod dynol yn cael eu geni'n rhydd ac yn gyfartal. Mae cydraddoldeb yn rhagdybio bod gan <b>bob unigolyn yr un hawliau</b> a'u bod yn haeddu'r un lefel o barch. Mae gan bob person yr <b>hawl i gael eu trin yn gyfartal</b>. Weithiau gall fod angen trin pobl yn wahanol er mwyn sicrhau cyfartaledd. Y rheswm am hynny yw y gall gwahaniaethau rhwng pobl olygu ei bod yn anodd iddyn nhw fwynhau eu hawliau heb gefnogaeth. Er enghraifft, efallai bod gan bawb hawl i gyflogaeth, ond heb drafnidiaeth hygyrch a chyfleusterau ar gyfer pobl ag anabledau corfforol, fyddan nhw ddim o reidrwydd yn gallu mwynhau'r hawl honno.</p> <p>Mae <b>Peidio â chamwahaniaethu</b> yn rhan annatod o egwyddor cydraddoldeb. Mae'n sicrhau nad yw hawliau neb yn cael eu hatal oherwydd ffactorau fel oedran, tarddiad ethnig, rhyw ac ati. Gall methu â chymryd i ystyriaeth y gwahaniaethau rhwng pobl, gyda golwg ar sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau eu hawliau, hefyd fod yn enghraifft o gamwahaniaethu.</p>
<b>Parch</b>	<p>Mae <b>hawliau a rhwymedigaethau</b> ynghlwm wrth hawliau dynol.</p> <p>Ystyr <b>Parch</b> yw cydnabod bod pob person yn bwysig, a bod rhaid trin pawb ag urddas. Yng nghyd-destun hawliau dynol, does dim rhaid ennill parch; mae'n hawl i bob person o dan bob amgylchiadau. Mae'n cynnwys cydnabod a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhwng pobl.</p> <p>Mae <b>Cyfrifoldeb</b> yn golygu bod angen i ni hefyd barchu hawliau dynol pobl eraill. Mae gan bob person hawliau dynol ac mae cyfrifoldeb arnom ni i gyd i barchu hawliau pobl eraill.</p>
<b>Atebolrwydd</b>	<p>Mae'r llywodraeth yn atebol i holl bobl Cymru, yn ogystal â'r gymuned ryngwladol trwy system hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig, am sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu mwynhau eu hawliau dynol.</p>
<b>Cyfranogiad</b>	<p>Mae gan bawb hawl i gyfranogi'n llawn ac ar sail gyfartal ag eraill ym mhob rhan o'u bywyd. Mae cyfranogiad llawn a chyfartal yn galluogi pawb i <b>gyflawni hyd eithaf eu potensial.</b></p>

## **5. Diweddglo**

Er bod gwaith ar ddatblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru i'w groesawu, mae angen gwneud llawer mwy i leoli'r cynnydd hwn oddi mewn i fframwaith seiliedig ar hawliau, fel y nodwyd gan y Cenedloedd Unedig ac ymrwymadau domestig Llywodraeth Cymru ei hun i hawliau plant o dan y gyfraith. Dylai Dibenion y Cwricwlwm fod wedi'u seilio'n glir ar egwyddorion hawliau plant, a dylid mynegi'r rhwymedigaethau hynny'n eglur fel thema drawsbynciol yn achos y 6 Maes Dysgu a Phrofiad. Dylai'r rhain wneud ymrwymiad penodol i gyflwyno addysg am hawliau, trwy hawliau ac ar gyfer hawliau – gan amlygu'r cynnydd sydd eisoes i'w weld a rhoi sylw i'r bylchau angenrheidiol er mwyn sicrhau system addysg seiliedig ar hawliau. Dylai hyn gael ei gefnogi gan weledigaeth gynhwysfawr, hir dymor i sicrhau gweithlu addysg sy'n gwybod am hawliau, yn ymwybodol o hawliau ac yn seiliedig ar hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

**ATODIAD A: MAPIO HAWLIAU PLANT A DIBENION Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU**

Diben	CCUHP
<b>Unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn meddu ar werthoedd diogel ac yn sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 2: Peidio â chamwahaniaethu</li> <li>• Erthygl 7: Cofrestru, enw, cenedligrwydd, gofal</li> <li>• Erthygl 8: Cadw hunaniaeth</li> <li>• Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad i wybodaeth</li> <li>• Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> <li>• Erthygl 30: Plant grwpiau lleiafrifol/brodorol</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn meithrin eu llesiant meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu hyder, gwydnwch ac empathi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 6: Goroesi a datblygu</li> <li>• Erthygl 24: Iechyd a mynediad i wasanaethau iechyd</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cymhwyso gwybodaeth am effaith diet ac ymarfer corff i iechyd corff a meddwl yn eu bywydau beunyddiol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 6: Goroesi a datblygu</li> <li>• Erthygl 24: Iechyd a mynediad i wasanaethau iechyd</li> <li>• Erthygl 27: Safon byw sy'n dda</li> <li>• Erthygl 31: Hamdden, chwarae a diwylliant</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn gwybod sut mae cael hyd i'r wybodaeth a'r gefnogaeth i gadw'n ddiogel ac yn iach</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad i wybodaeth</li> <li>• Erthygl 16: Hawl i breifatrwydd</li> <li>• Erthygl 17: Mynediad i wybodaeth – cyfryngau torfol</li> <li>• Erthygl 19: Amddiffyniad rhag pob math o drais</li> <li>• Erthygl 32: Amddiffyniad rhag gwaith peryglus</li> <li>• Erthygl 33: Amddiffyniad rhag camddefnyddio sylweddau</li> <li>• Erthygl 34: Amddiffyniad rhag camfanteisio rhywiol</li> <li>• Erthygl 36: Amddiffyniad rhag camfanteisio</li> <li>• Erthygl 39: Ailsefydlu a chefnogaeth</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 24: Iechyd a mynediad i wasanaethau iechyd</li> <li>• Erthygl 31: Hamdden, chwarae a diwylliant</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn gwneud penderfyniadau mesuredig ynghylch ffordd o fyw ac yn rheoli risg</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 12: Hawl i gael eich clywed wrth wneud penderfyniadau</li> <li>• Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad i wybodaeth</li> <li>• Erthygl 24: Iechyd a mynediad i wasanaethau iechyd</li> <li>• Erthygl 28: Mynediad i addysg</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> <li>• Erthygl 33: Amddiffyniad rhag camddefnyddio sylweddau</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn meddu ar yr hyder i gymryd rhan mewn perfformiad</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 31: Hamdden, chwarae a diwylliant</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol sydd wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddeutu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 3: Lles pennaf y plentyn</li> <li>• Erthygl 15: Rhyddid i gymdeithasu</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn wynebu ac yn goresgyn her</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 6: Goroesi a datblygu</li> <li>• Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad i wybodaeth</li> <li>• Erthygl 29: Nodau Addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i reoli bywyd beunyddiol mor annibynnol ag y gallant</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> <li>• Erthygl 42: Hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn</li> </ul>

#### Dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu ar hyd eu bywydau

<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn gosod safonau uchel ar eu cyfer eu hunain, gan chwilio am her a'i mwynhau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 2: Peidio â chamwahaniaethu</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn datblygu corff o wybodaeth ac yn meddu ar y sgiliau i gysylltu a chymhwysu'r wybodaeth honno mewn gwahanol gyd-destunau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cwstyynu ac yn mwynhau datrys problemau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a chyd-destunau, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 30: Plant grwpiau lleiafrifol/brodorol</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn gallu esbonio'r syniadau a'r cysyniadau y maent yn dysgu amdanynt</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn gallu defnyddio rhifau yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn deall sut mae dehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu, canfod a dadansoddi gwybodaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad i wybodaeth</li> <li>• Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd</li> <li>• Erthygl 16: Hawl i breifatrwydd</li> <li>• Erthygl 17: Mynediad i wybodaeth – cyfryngau torfol</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn gwneud gwaith ymchwil ac yn gwerthuso'u canfyddiadau'n feirniadol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>

#### Dinasyddion moesegol a gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd

<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth lunio barn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 2: Peidio â chamwahaniaethu</li> <li>• Erthygl 12: Hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau</li> <li>• Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad i wybodaeth</li> <li>• Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd</li> </ul>
---	---

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 17: Mynediad i wybodaeth – cyfryngau torfol</li> <li>• Erthygl 28: Mynediad i addysg</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn ymgysylltu â materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn</li> <li>• Erthygl 2: Peidio â chamwahaniaethu</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn deall ac yn ymarfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn</li> <li>• Erthygl 2: Peidio â chamwahaniaethu</li> <li>• Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol</li> <li>• Erthygl 42: Hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a chymryd camau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 12: Yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, yn awr ac yn y gorffennol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn</li> <li>• Erthygl 2: Peidio â chamwahaniaethu</li> <li>• Erthygl 8: Cadw hunaniaeth</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> <li>• Erthygl 30: Plant grwpiau lleiafrifol/brodorol</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn</li> <li>• Erthygl 2: Peidio â chamwahaniaethu</li> <li>• Erthygl 3: Lles pennaf plant</li> <li>• Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol</li> <li>• Erthygl 8: Cadw hunaniaeth</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 6: Goroesi a datblygu</li> <li>• Erthygl 24: Iechyd a mynediad i wasanaethau iechyd</li> <li>• Erthygl 27: Safon byw sy'n ddigonol</li> </ul>

### Cyfranwyr llawn menter a chreadigrwydd sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfranwyr llawn menter a chreadigrwydd sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn meddwl yn greadigol i ailfframio a datrys problemau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn canfod a manteisio ar gyfleoedd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 1: Cymhwyso'r Confensiwn</li> <li>• Erthygl 2: Peidio â chamwahaniaethu</li> <li>• Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol</li> <li>• Erthygl 27: Safon byw sy'n ddigonol</li> <li>• Erthygl 28: Mynediad i addysg</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cymryd risgiau a fesurwyd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad i wybodaeth</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn arwain ac yn cyflawni gwahanol rolau mewn timau yn effeithiol ac yn gyfrifol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 15: Rhyddid i gymdeithasu</li> <li>• Erthygl 29: Nodau Addysg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn mynegi syniadau ac emosiynau trwy wahanol gyfryngau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 12: Hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau</li> <li>• Erthygl 13: Rhyddid mynegiant a mynediad i wybodaeth</li> <li>• Erthygl 14: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd</li> <li>• Erthygl 16: Hawl i breifatrwydd</li> <li>• Erthygl 17: Mynediad i wybodaeth – cyfryngau torfol</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• yn rhoi o’u hegni a’u sgiliau er mwyn i bobl eraill elwa</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Erthygl 1: Cymhwyso’r Confensiwn</li> <li>• Erthygl 2: Peidio â chamwahaniaethu</li> <li>• Erthygl 3: Lles pennaf plant</li> <li>• Erthygl 4: Mesurau Gweithredu Cyffredinol</li> <li>• Erthygl 29: Nodau addysg</li> </ul>



## ATODIAD B: MYNEGI CCUHP AR DRAWS Y MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno hawliau'r plentyn o dan CCUHP sydd eisoes ymhlyg yn y papurau cyflwyno a gafwyd gan bob un o'r gweithgorau Maes Dysgu a Phrofiad (defnyddir y fersiwn a luniwyd wedi'r diwygio CAG ar 18 Rhagfyr 2017).

### Mathemateg a Rhifedd

Mae CCUHP yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y gosodiad trosfwaol a ddatblygwyd gan y grŵp Maes Dysgu a Phrofiad hwn i gysylltu'r cysyniadau allweddol â'r pedwar diben. Mae cysylltiadau clir rhwng y gosodiad hwn, 'trwy ddatrys poblemau a rhesymu, mae mathemateg a rhifedd yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau rhesymegol, gwybodus, y gellir eu cyfiawnhau' a hawliau plant i gyfranogi trwy fedru cyrchu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ynghylch eu bywydau eu hunain (Erthyglau 12, 13, 17). Ymhlyg yn y gosodiad hwn mai'r ffaith bod hawl plentyn i ddatblygu sgiliau (Erthygl 29) yn hawl sy'n borth, gan y bydd yn gyfrwng i brofi hawliau eraill. Mae'r thema hon yn dod i'r amlwg fel un allweddol ar hyd y papur cyflwyno, sy'n amlinellu effaith dysgu yn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn ar brofiad ehangach plentyn o'i hawliau mewn perthynas â goroesi, llesiant a darpariaeth (Erthyglau 6, 24, 27) a hefyd ar allu'r plentyn i wneud penderfyniadau a llunio barn (Erthyglau 12, 13, 17). Mae'r papur cyflwyno yn datblygu'r safbwynt hwn yn arbennig yn llinynnau 1, 2 a 5 o'r Maes Dysgu a Phrofiad.

### Iechyd a Llesiant

Mae'r gosodiad sy'n lleoli'r pedwar diben yn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn cyfeirio'n benodol at yr angen i bobl ifanc 'ddeall eu hawliau a pharchu hawliau pobl eraill' (Erthygl 42). Mae testun y naratif a'r llinynnau yn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn unigryw ymhlith yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad, gan fod cysylltiadau cryf i'w gweld â sawl hawl amddiffynnol, yn arbennig Erthyglau 19, 33, 34, 36. Mae hefyd gysylltiadau clir â hawliau i oroesi a darpariaeth (Erthyglau 6, 24, 27) ac i beidio â dioddef Camwahaniaethu (Erthygl 2). Mae'r hawliau gwneud penderfyniadau a rhyddid mynegiant (Erthyglau 12 a 13) yn darparu sylfaen ar gyfer Llinyn 3, mae sawl llinyn wedi'u seilio ar hawliau plentyn i gyfranogiad diwylliannol a chrefydd (Erthyglau 14, 15 a 31), ac mae Erthygl 31 yn arbennig o berthnasol i Llinyn 1. O dan Llinyn 5 mae hefyd yn ddealliedig bod y naratif ynghylch perthnasoedd yn cysylltu'r hawliau i gyfranogiad â'r hawl i breifatrwydd (Erthygl 16), yn arbennig wrth drafod technoleg. Mae cyfle yma (er nad oes naratif i hynny eto) i ymhelaethu ar hawliau'r plentyn o fewn y teulu, yn arbennig Erthyglau 5, 9, 10, 18 a 20.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r papur cyflwyno ynghylch y Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn amlinellu llinynnau a seiliwyd ar hawliau sy'n ymwneud â chyfranogiad diwylliannol (yn arbennig Erthyglau 14, 15, 30 a 31) a hefyd hawliau cyfranogol yng nghyswllt rhyddid mynegiant, deall gwybodaeth a gwneud penderfyniadau (Erthyglau 12, 13 a 17). Mae'r cyflwyniad hwn yn defnyddio iaith hawl yn naratif y llinynnau hyn heb gyfeirio'n benodol at CCUHP, er enghraifft 'Mae [Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu] yn eu dysgu i werthfawrogi a pharchu anghenion a hawliau pobl eraill', sy'n cyfeirio at Erthygl 2. Byddai cyfeirio'n benodol at CCUHP yn seilio'r rhesymeg feirniadol ar gyfer hyn a gosodiadau eraill mewn cyfraith ryngwladol ac ym maes dyletswyddau statudol yng Nghymru.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r naratif sy'n sylfaen ar gyfer pob llinyn ar goll o'r papur cyflwyno, sydd heb ei ddiwygio eto, ond mae cysylltiad cryf rhwng llinynnau yn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn â hawliau sy'n ymwneud â goroesi, darpariaeth ac amddiffyniad (Erthyglau 6, 24, 27, 33) a hawliau sy'n ymwneud â chyfranogiad, rhyddid mynegiant a gwneud penderfyniadau (yn arbennig Erthyglau 12, 13 ac 17, a hefyd Erthygl 16, yr hawl i breifatrwydd). Mae llinynnau 2, 6 a 7 fel ei gilydd yn cwmpasu ystyriaethau

moesegol ynghylch datblygu a chymhwyso gwyddoniaeth a thechnoleg, a byddai mynegi hawliau dynol oddi mewn i'r llinynnau hynny yn darparu fframwaith cydlynus a iaith a rennir ar gyfer ymchwilio i'r goblygiadau hynny.

### Y Dyniaethau

Ymhlyg yn y papur cyflwyno mae cyfeiriadau at hawliau goroesi (yn arbennig 6, 24); hawliau yng nghyswllt cyfranogiad a rhyddid mynegiant (12, 13, 15, 17); yr hawl i beidio â dioddef Camwahaniaethu (Erthygl 2) a hawliau i gyfranogiad diwyllianol (yn arbennig Erthyglau 14, 30, 31). Byddai mynegiant o CCUHP a'i werthoedd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn darparu rhesymeg ar gyfer y naratif sy'n sylfaen ar gyfer sawl llinyn ac yn esbonio pam mae pobl ifanc yn datblygu'r ddealltwriaeth a'r sgiliau a amlinellir. Er enghraifft, o dan llinyn 1, 'mae'n hanfodol deall... sut gall amrywiol gredoau, gwerthoedd ac athroniaethau ddylanwadu ar weithredoedd dynol', o dan llinyn 3, 'Mae ymrwymiad i'n cymdeithas ar lefel leol, cenedlaethol a byd-eang ac i gynaliadwyedd y blaned yn rhan hanfodol o addysg dyniaethau'. Nid mater o hap yw natur hanfodol yr elfennau hyn, yn hytrach y rheswm am hynny yw eu bod wedi'u seilio ar fframwaith rhyngwladol o hawliau, a bod Cymru wedi gwneud ymrwymiad i weithredu CCUHP. Yn hollbwysig, dylai naratif a geiriad llinyn 6, 'Mae dinasyddion cyfrifol yn foesegol wybodus, yn feddylwyr beirniadol ac yn chwarae rhan weithredol yn y gymdeithas' fynegi'n benodol CCUHP a'i egwyddorion yng nghyswllt hawliau cyfranogiad plant a phobl ifanc.

### Y Celfyddydau Mynegiannol

Erthyglau sy'n bwydo i llinynnau a naratif y Maes Dysgu a Phrofiad hwn yw'r hawliau i gael rhyddid mynegiant a chyfranogiad (Erthyglau 12 ac 13), hawliau i gyfranogiad diwyllianol (Erthyglau 15 a 31) a'r hawliau i hunaniaeth (Erthyglau 2, 7 a 30). Mae'r llinyn hefyd yn creu cysylltiadau â phwysigrwydd y Maes Dysgu a Phrofiad hwn o ran mynediad pobl ifanc i iechyd a llesiant (Erthygl 24) ac mae'r Maes Dysgu a Phrofiad hwn yn ymhelaethu ar rôl y celfyddydau mynegiannol wrth ddatblygu sgiliau a doniau plentyn yn llawn (Erthygl 29).

**Bylchau yn y Cwricwlwm:** Mae egwyddorion dylunio'r cwricwlwm a gyflwynwyd yn Dyfodol Llwyddiannus yn gwneud ymrwymiad clir i ddatblygu cwricwlwm newydd sydd wedi'i seilio ar hawliau ac yn gynhwysol. Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad hwn, mae ein dadansoddiad cychwynol o hawliau ar draws y ffordd gyfredol o feddwl wedi amlygu bylchau posibl yn yr hyn mae byd addysg yn ei gynnig. Mae'r bylchau yn ymwneud yn arbennig â rhai o ddysgwyr Cymru sy'n fwyaf agored i niwed, gan gynnwys; plant a phobl ifanc a allai fod yn byw mewn tloidi, yn anabl, yn derbyn gofal, yn rhan o'r system cyfiawnder ieuencid, yn ffoaduriaid neu'n ceisio lloches.

Dylid ystyried rhoi mwy o sylw i'r Erthyglau canlynol yn CCUHP wrth i waith fynd rhagddo ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Erthygl 5 – Arweiniad gan rieni
- Erthygl 9 – Gwahanu oddi wrth rieni
- Erthygl 10 – Aduno teuluoedd
- Erthygl 11 – Amddiffyniad rhag cael eich cipio
- Erthygl 18 – Cyfrifoldebau rhieni; cymorth gan y wladwriaeth
- Erthygl 20 – Yr hawl i dderbyn gofal
- Erthygl 21 – Yr hawl i gael eich mabwysiadu
- Erthygl 22 – Plant sy'n ffoaduriaid
- Erthygl 23 – Plant ag anabledau
- Erthygl 25 – Adolygu triniaeth mewn gofal
- Erthygl 26 – Yr hawl i nawdd cymdeithasol
- Erthygl 35 – Amddiffyniad rhag cael eich cipio, eich gwerthu neu eich masnachu
- Erthygl 37 – Cadw'n gaeth a chosb
- Erthygl 38 – Rhyfel a gwrthdaro arfog
- Erthygl 39 – Ailsefydlu dioddefwyr sy'n blant
- Erthygl 40 – Yr hawl i gyfiawnder a system gyfiawnder deg
- Erthygl 41 – Cydnabod hawliau fel isafswm a pharchu safonau cenedlaethol uwch
- Erthyglau 42-54 – Cyfrifoldebau ac atebolrwydd y llywodraeth

---